Os bydd ymddygiad cydweithiwr neu aelod o'r cyhoedd yn achosi pryder i chi:

- Peidiwch â rhoi eich pryderon o'r neilltu
- Peidiwch â thrafod y mater gyda'r sawl sy'n achosi'r pryderon i chi
- Peidiwch ag oedi cyn trafod eich pryderon gyda'r person perthnasol
- Mae'n well eich bod chi wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â'r profiad a'r cyfrifoldeb i asesu'r achos.

Rhifau ffôn cyswllt i drafod neu i adrodd achosion posib o gam-drin

Cyfarwyddwr y De
02920 635682 / 07976 003352

Cyfarwyddwr y Canolbarth
01686 614036 / 07976 003321

Cyfarwyddwr y Gogledd
01248 672100 / 07976 003320

Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-llyn
01678 541000

Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog
01239 654473

Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd
02920 635678

Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
07976 003340

Llinell Gymorth yr NSPCC yng Nghymru
08081002524

Canllawiau Diogelu Plant

urdd.org

Mae'n bwysig cofio:

- Mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i sicrhau bod plant mewn perygl yn cael eu diogelu rhag niwed.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn adnabod yr arwyddion ac yn dweud os bydd plentyn mewn perygl.
- Mae'n rhaid i chi ofalu nad yw eich ymddygiad chi yn achosi pryder, neu mewn perygl o gael ei gamddehongli.

Os ydych yn amau bod plentyn yn cael ei gam-drin, neu os bydd rhywun yn dweud wrthych ei fod e / hi neu blentyn neu berson ifanc arall yn cael ei gam-drin:

- Dangoswch eich bod yn credu yr hyn maen nhw'n ei ddweud, a'ch bod chi'n cymryd ei honiadau o ddifri.
- Anogwch y plentyn i siarad, ond peidiwch ag awgrymu dim na holi unrhyw gwestiynau arweiniol.
- Eglurwch y camau y bydd rhaid eu cymryd.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd llwyr gan fod gennym gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r sawl sydd angen gwybod.
- Cofnodwch yr hyn a ddywedwyd wrthych gan ddefnyddio'r union eiriau os oes modd.
- Gofalwch eich bod yn mynegi eich pryderon ar unwaith i'r Cyfarwyddwr perthnasol.
- Peidiwch â thrafod y mater gyda'r sawl sy'n cael ei gyhuddo ar unrhyw gyfrif.